CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 25ain CHWEFROR 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mr Einion Parry Williams, Mrs Janet Hughes, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard, Mr W Raymond Evans
a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorwyr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:
Cyng Mrs Catherine Jane Hughes, Mr Mike Jones, Mr Edward Thomas a Mr Meirion Thomas.

Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gan y Cadeirydd.

1.2 Nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb ar unrhyw eitem wedi ei rhestru ar y rhaglen.

2 ADRODDIAD SEFYLLFA BAW CI YN Y PENTREF.

2.1 Croesawyd Mr Barri Jones, Swyddog o'r Cyngor Sir i'r cyfarfod a rhoddwyd adroddiad cryno ganddo o'r sefyllfa presennol ac fod swyddogion yn cadw golwg ar y pentref ond fod angen gwybodaeth and tystiolaeth o'r digwyddiad/troseddu cyn cymeryd camau priodol yn erbyn perchennog y ci. Nid oedd drwg o beth hysbysebu fod cymdogion yn ymwybodol ac yn fodlon adrodd drwy safleoedd cymdeithasol. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith ac am ddod i adrodd i'r Cyngor Cymuned.

3 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad byr ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Victor Hughes:

3.1 Fod cyfnod fel Cynghorwr Sirol yn dod I ben ac amlinellodd yn union beth sydd wedi ei wynebu yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Dangosodd pryder o codi y dreth ac yr effaith ar fusnesau bach mewn cefn gwlad. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei holl waith caled ar rhan y plwyf.

3.2 Datganiad Cwmni Horizon.

4 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 24ain Ionawr 2017 yn gywir. (EPW/JH).

Arwyddo.....

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 Arwyddion Gylchfan A5 ger Parc Gwyddoniaeth – dangoswyd pryder fod cyflwr yr arwyddion wedi dirywio a dwyn sylw y Cwmni.

5.2 Cynllun Nwy y Gaerwen – dyweodd y Clerc fod trefniadau mewn llaw ar gyfer y diwrnod agored ar y 7fed Fawrth.

5.3 Darparu Addysg Gynradd Ardal Llangefni a'r Cyffiniau – y Clerc i ymateb i'r ddogfen ymgynghori. Disgwylir penderfyniad terfynol ar ôl yr etholiad yn Mis Mai.

5.4 CPDI Y Gaerwen – roedd y Clerc wedi trafod cais y Clwb gyda'r Ysgrifennydd ac roeddynt yn hapus gyda cynnig ac amodau y Cyngor o ddefnyddio Cae Chwarae Siôp Bach dros cyfnod y Gwanwyn a Hâf 2017.

6 MATERION CAEAU CHWARAE.

6.1 Tyrchod yn y Caeau Chwarae – tynnwyd sylw fod y tyrchod yn nol ac roedd y Clerc eisoes wedi cysylltu gyda'r cwmni arferol i ddatrys y sefyllfa.

7 MATERION LLWYBRAU.

7.1 Dim mater yn codi.

8 MATERION PRIFFYRDD.

8.1 **Llinellau Gwyn Cyffordd Lon Groes** – tynnwyd sylw fod yno pryderon yn dilyn y marciau newydd sydd wedi ei osod yn achosi anhawsterau I gerbydau. Penderfynid – dwyn sylw pryderon i'r Adran Briffyrdd y Cyngor Sir

8.2 **Cais Gostwng Cyflymdra Cerbydau Lon Cefn Du Lawr i Lon Ceint –** darllenwyd ymateb y Cyngor Sir nad oeddynt am weithredu ar ofynion y Cyngor Cymdeithas yn yr achos yma ac fe rhoddwyd y rhesymau am y penderfyniad yma.

9 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

9.1 Cais Cynllunio Diwygio Amodau Adran 73 (03) Cais Caniatad Cynllunio 33C190 er mwyn cael defnyddio hen mynedfa cerbydol gwreiddiol i'r safle yn:
LLEOLIAD: Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen. Rhif: 33C190Q/VAR.

Dangoswyd pryder a peidio cefnogi'r cais er budd lles Iechyd & Diogelwch i'r cymdogion sydd yn cael eu effeithio ac nad oedd yr hen mynedfa bellach yn addas. **Y Clerc i llunio ymateb priodol i'r Adran Cynllunio.**

Arwyddo.....

10. PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO Y CYNGOR SIR.

10.1 Cais Llawn Addasu Adeilad Allanol a Creu Mynedfa Newydd – Berw Uchaf, Pentre Berw - Rhif Cais - 33C182D – CANIATĀD.

11 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

11.1 **Derbyn & Arwyddo Cofnodion Cyfarfod y Cyngor – 13eg Chwefror 2017** – derbyniwyd ac arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir – (LJ/EPW).

11.2 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Chwefror 2017 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

11.3 **Gweinyddu & Rheoli Risg:**

11.3.1 Dim adroddiad.

12. ADRODDIADAU.

12.1 DIM ADRODDIAD.

13. GOHEBIAETH

13.1 Bwletin Un Llais Cymru Chwefror 2017 – er gwybodaeth.

13.2 Cylchlythyr Rhaglen Ynys Ynni Môn – er gwybodaeth

13.3 Cytundeb Newydd ar Gyfer Casglu Gwastraff & Ailgylchu – rhannwyd y gwybodaeth ac nodwyd gyda gobaith y bydd gwell trefniant casglu sbwriel mewn llaw ar gyfer Nadolig 2017. Dywedwyd fod y Cyngor Sir wedi penderfynnu y bydd pob annedd yn cael 'trollies' erbyn diwedd yr Hâf.

13.4 Datganiad y Cyngor Sir ynghylch a'r Cyllideb 'wedi siapio gan bobl yr Ynys' – rhannwyd y gwybodaeth a'r datganiad gyda'r aelodau.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 28ain MAWRTH 2017.

14.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:45yh.